

Ysgolion Pentref

Yn 1880 pasiwyd Deddf oedd yn ei gwneud hi'n orfodol i bob plentyn rhwng pump oed a deg oed fynychu ysgol. Cyn hynny, ni fyddai llawer o blant o'r dosbarth gweithiol wedi derbyn addysg ffurfiol.

Sefydlwyd rhwydwaith o ysgolion pentref ar draws yr ardal yng nghyfnod Fictoria. Nid oedd y mwyafrif o'r disgyblion cyntaf erioed wedi bod yn yr ysgol o'r blaen. Roedd athrawon ym mhob un o'r ysgolion lleol yn cael problemau wrth gael y plant i ddeall yr hyn a ddisgwyd ganddynt yn yr amgylchiadau newydd hyn. Roedd y plant yn cael eu rhannu'n Safonau neu grwpiau yn ôl eu gallu, nid eu hoedran. Roedd ambell un o'r plant ffodus o bosibl wedi dysgu'r wyddor gan rywun yn y teulu a oedd yn gallu darllen neu wedi dysgu darllen efallai yn Ysgolion Sul y capeli neu'r eglwysi.



Dosbarth oed cymysg Oes Fictoria

Nid oedd disgybl yn gallu gadael Safon a symud ymlaen i'r un nesaf hyd nes y byddai ef neu hi wedi pasio profion i ddangos eu bod yn barod. Byddai'r holl weithgareddau yma'n digwydd yn yr un ystafell ar yr un pryd gan mai dim ond un ystafell a oedd ar gael i ddysgu'r plant yn y rhan fwyaf o ysgolion pentref. Fel arfer, byddai'r Athrawon a oedd yn ddisgyblion, sef y disgyblion hyn oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon eu hunain ac yn derbyn cyflog bychan, yn dysgu'r safonau is.

Roedd athrawon oes Fictoria yn fwy llym nag athrawon heddiw ac yn aml byddent yn curo disgyblion er mwyn gwneud iddynt ymddwyn yn dda. Yn nyddiau cynnar yr ysgolion, roedd yr athrawon yn ei gweld hi'n anodd i gael y disgyblion i wneud yr hyn a ddisgwyd ganddynt. Yn y bore, byddai'r Pennaeth yn canu'r gloch law ac fe fyddai'r holl ddisgyblion yn gwneud rhes dwy y tu allan i'r drws. Wrth ddod i mewn byddai'r bechgyn yn gorfod tynnu eu capiau a'u rhoi ar begiau neu ar silff o dan y ddesg. Byddai'r bechgyn a'r genethod yn eistedd mewn rhesi yn dawel, gyda'r plant hynaf yn y cefn.

YSGOL OES FICTORIA

Byddai pob athro yn defnyddio'r frawddeg '*Children should be seen and not heard*' wrth iddynt fynd i eistedd yn y rhesi. Y geiriau arferol i agor pob sesiwn ddysgu fyddai '*Good morning children*' gan yr athro. Byddai pob un o'r disgyblion yn ateb yn gwrtais '*Good morning sir*'. Saesneg fyddai cyfrwng y dysgu drwy'r amser.

Roedd ymddygiad a disgyblaeth yn cael sylw mawr. Os byddai disgyblion yn hwyr, byddai cosb. Roedd y gansen yn ffordd o sicrhau disgyblaeth! Byddai presenoldeb a phrydlondeb da yn cael ei wobrwyo drwy dystysgrifau. Roedd gwersi arferol yn cynnwys elfennau o'r tair R ('Three Rs') sef 'Reading, wRiting and aRithmetic' gan gynnwys elfennau o arddweud.

Cadw Cofnodion

Yn ystod oes Fictoria roedd yn rhaid i bob ysgol gadw log dyddiol yn cynnwys presenoldeb, gwersi, disgyblaeth ac unrhyw beth arall a oedd yn berthnasol i'r gwaith o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Roedd y drefn ddyddiol yn dilyn y cloc mawr yn y dosbarth.

9yb – 12yp Gweddi a gwersi'r bore.

12yp – 2yp Amser cinio

2yp– 5yp Gwersi'r pnawn

Dulliau Dysgu

Roedd y plant yn dysgu'r rhan fwyaf o'u gwersi drwy gopïo ac ysgrifennu pethau i lawr neu trwy lafarganu pethau nes eu bod yn gwybod y geiriau yn berffaith ar eu cof. Roedd llawer iawn o'r dysgu yn ddysgu ar y cof.



Adnodd atgoffa'r wyddor


YSGOL OES FICTORIA

Ysgrifennu ar lechi

Arferai'r plant ddysgu ysgrifennu gan ddefnyddio llechi. Roeddent yn naddu llythrennau ar y llechi gan ddefnyddio pensel lech neu garreg nadd. Roedd plant i fod i ddod â chadach eu hunain i lanhau'r llechi, ond roedd y rhan fwyaf o'r plant yn glanhau'r llechen trwy boeri arni a'i sychu gyda'u llawes. Un rheswm pam y collodd y llechen ysgrifennu ei phoblogrwydd oedd oherwydd glanweithdra ac iechyd.

Gan amlaf cynhyrchid y llechi ysgrifennu mewn adeiladau tebyg i ffatrïoedd a byddai amryw o'r rheini y tu allan i'r chwareli, h.y. mewn pentrefi neu drefi. Erbyn yr 1880au roedd cymaint â phum ffatri yn gwneud llechi ysgrifennu ym Mangor. Rhoddid ymyl o bren am y llechen a defnyddid penseli plwm i ysgrifennu arni gan lanhau'r llechen a'i hailddefnyddio dro ar ôl tro.

Cynhyrchid llechi ysgrifennu gwag, rhai llinelllog, llechi â sgwariau arnynt, a llechi gyda mapiau arnynt.



Llechen ysgrifennu Oes Fictoria

Ysgrifennu mewn llyfrau

Roedd y plant hŷn yn defnyddio pen ac inc i ysgrifennu mewn llyfrau. Nid oedd y disgyblion yn cael ysgrifennu mewn llyfrau os nad oeddynt wedi meistrioli'r 'copperplate' sef arddull llawysgrifen - mae'n debyg i'r arddull rhedol ('cursive') heddiw. Bob bore, byddai'r 'monitor' yn dosbarthu'r inc yn y potiau. Roedd y plant yn cael eu cosbi os oeddent yn gwneud llanast ar eu llyfrau gyda'r inc. Gyda llyfrau a phapur yn brin, y gwaith gorau fyddai'n mynd i'r llyfrau.



YSGOL OES FICTORIA

Darllen

Yn ystod y cyfnod cynnar, roedd y plant yn dysgu darllen o'r Beibl, gan aros eu tro i ddarllen pythiau o'r Beibl. Roedd iaith y Beibl yn wahanol i iaith pob dydd a buan iawn y sylweddolwyd bod rhaid cael defnyddiau darllen oedd yn fwy addas ar gyfer y plant.

Cyflwynwyd llyfrau a storïau moesol i'r plant eu darllen, ond gan fod rhaid i'r defnydd darllen barhau am flwyddyn roedd y plant yn ailddarllen y llyfr os oeddent wedi'i orffen.

Gwersi Eraill

Yn ogystal â'r gwersi darllen, ysgrifennu a mathemateg dyddiol, roedd y plant yn cael gwersi daearyddiaeth, hanes a chanu unwaith yr wythnos.

Roedd y merched yn cael eu dysgu i wnïo a choginio, gyda'r bechgyn yn dysgu garddio a sgiliau gwaith coed sylfaenol.

Roedd gwyddoniaeth neu astudiaethau natur yn cael ei ddysgu drwy 'edrych ar wrthrych' e.e. gosodid malwod, blodau, gwenith, a gwrthrychau o bob math ar fyrddau o flaen y plant. Gwaith y plant oedd disgrifio'r gwrthrych. Byddai'r athrawon gan amlaf yn dewis ysgrifennu disgrifiad o'r gwrthrych eu hunain a gwneud i'r plant gopio'r gwaith oddi ar y bwrdd du. Yn aml byddai cyswllt agos gyda byd natur, garddio a ffermio.

Bu'r gwersi Cerddoriaeth yn cynnwys dysgu emynau a'r Tonic sol-ffa



Tonic sol-ffa – 'Modulator'

YSGOL OES FICTORIA

Un o hoff wersi'r rhan fwyaf o blant oedd y 'Dril', sef Addysg Gorfforol. Roedd hefyd yn gallu bod yn gyfle iddyn nhw fynd i iard yr ysgol i wneud ymarferion. Roedd rhaid i'r plant loncian, ymestyn a chodi pwysau i gyfeiliant hen biano.



Cap 'Dunce'

Byddai rhai plant oedd yn cael trafferthion efo'u dysgu yn gorfod gwisgo'r cap 'Dunce'. Het siâp côn oedd hon gyda'r llythyren 'D' wedi'i hysgrifennu'n fawr ar y tu blaen. Gosodid yr het hon ar ben y plentyn a gwneid iddo sefyll ar stôl yng nghefn y dosbarth.

Gwobrwyo

Nid cosbi oedd yr unig ffordd o geisio cael plant i ddod i'r ysgol yn gyson. Bydden nhw'n derbyn gwobrau hefyd. Rhoddai'r ysgolion wobrau i'r plant a oedd yn bresennol yn gyson.

Byddai seremoni arbennig yn y dosbarth i wobrwyo'r plant am bresenoldeb a phrydlondeb da, dysgu ar y cof, & arholiadau llafar. Byddai'r gwobrau yn cynnwys medalau, tystysgrifau a llyfrau.

YSGOL OES FICTORIA

Y 'Welsh Not'

Byddai plant o'r 1890au wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg er mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf. Darn o bren neu lechen oedd y *Welsh Not*, neu'r *Welsh Note*. Roedd y llythrennau W.N. neu'r geiriau Welsh Not/Welsh Note arno. Roedd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif. Dim ond Saesneg roedd plant i fod i'w siarad yn yr ysgol, felly, roedd y Welsh Not yn cael ei roi am wddf plentyn oedd yn siarad Cymraeg.



'Welsh Not' pren

Os oedd y plentyn oedd â'r Welsh Not yn clywed rhywun arall yn siarad Cymraeg, roedd yn cael ei roi i'r plentyn hwnnw. Ar ddiwedd y dydd, roedd yr athro neu'r athrawes yn gofyn 'Who has the Welsh Not?' ac yn curo'r plentyn olaf i'w wisgo â chanssen. Wrth gwrs, yn aml roedd plant yn gyfrwys ac yn dweud celwydd am ei gilydd er mwyn peidio cael y ganssen.

Roedd rhai rhieni'n falch bod eu plant yn siarad Saesneg bob dydd yn yr ysgol, ond roedd eraill yn meddwl ei fod yn ffordd o ladd yr iaith Gymraeg.

Iechyd a Lles Disgyblion

Roedd plant yn aml yn hwyr neu'n absennol oherwydd salwch neu bod angen iddynt weithio i ennill arian ychwanegol i'r teulu mewn adegau pan oedd arian yn brin.

Roedd oes Fictoria yn gyfnod lle'r oedd teuluoedd tlawd yn profi diffyg o ran amrywiaeth diet ac amodau gweddol sylfaenol o ran glanweithdra. Dan yr amodau hyn, roedd plant yn aml mewn perygl o ddal afiechydon a heintiau. Un o'r pethau sy'n ymddangos yn rheolaidd yn Llyfrau Cofnod yr ysgolion yw'r sôn am wahanol fathau o salwch. Fel diphtheria a'r dwymyn goch, gellir trin y frech goch yn eithaf hawdd heddiw gyda chyffuriau modern ond yn ystod oes Fictoria roedd y rhain yn afiechydon difrifol a byddai plant hyd yn oed yn gallu marw ohonynt.

Roedd yr athrawon yn gwybod y gallai plant oedd yn dod i'r ysgol o bell ddod i gysylltiad â'r afiechyd drwy'r ysgol a'i ledaenu yn y ffordd hon. Dyma pam yr oedd ysgolion yn cael eu cau ar adegau pan fyddai nifer o achosion o afiechydon. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion ar gau am ran o bob blwyddyn oherwydd salwch.

Llyfryddiaeth / Cysylltiadau Defnyddiol

Stevens, C. *Hanes Atgas Oes Fictoria*

Jones, BW. *Bwli a Bradwr* Brenda Wyn Jones

Evans, J. *Storiau Hanes Cymru*: O.M. Edwards a'r Welsh Not

<https://www.youtube.com/watch?v=BjOGs-GdEpl>

http://www.judgeslodging.org.uk/resources/gemau_buarth_chwarae/

<http://www.primaryhomeworkhelp.co.uk/victorians/children/schools.htm>

<https://victorianchildren.org/victorian-schools/>